**TEMPLED GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/*PROFESSIONAL LEARNING GRANT TEMPLATE***

| | |
|---|---|
| **Ysgol/*School*** | Coedmawr a Glanadda |
| **Swm a ddyrannwyd/ *Allocated Sum*** | **£1,440 –** Coedmawr<br>**£1,566 -** Glanadda |

| | |
|---|---|
| **Amlinelliad o'r bwriadau/*Outline of intentions*** | • Paratoi ar gyfer dyfodiad Cwricwlwm i Gymru drwy uwchsgilio staff a rhoi cyfle iddynt gyd-weithio ar weithgareddau dysgu proffesiynol gyda chlwstwr o ysgolion y Dalgylch, e.e. defnyddio strategaethau Ardaloedd Cyfnod Syflaen a thasgau ffocws yn nosbarth Cyfnod Allweddol 2 gyda gwaith trawsgwricwlaidd yn y prynhawniau. (Cyd-fynd â Blaenoriaeth 4 yn y CDY).<br>• Uwchsgilio cymhorthydd dysgu drwy ei rhyddhau i fynychu hyfforddiant Llythrenedd Emosiynol mewn Ysgolion (ELSA) am 6 diwrnod dros y flwyddyn addysgol (cyd-fynd a blaenoriaeth 3 yn y CDY).<br>• Paratoi ar gyfer dyfodiad Cwricwlwm i Gymru drwy ryddhau athro CA 2 i gyd-weithio gyda ysgolion y Dalgylch ar brosiect o gyd gynllunio gwaith trawsgwricwlaidd er mwyn sicrhau ffocws ar gysondeb egwyddorion, datblygu annibyniaeth a darpariaeth sy'n cyflwyno her briodol'.<br>• Uwchsgilio athrawon drwy fod yn rhan o Hyfforddiant Shirley Clarke yn ymwneud âg asesu ffurfiannol gan hyfforddi staff yn y dulliau a'r strategaethau o rymuso plant i ddod yn ddysgwyr hyderus sy'n gwybod sut i ddysgu. Annog yr athrawon i arbrofi gyda ffyrdd o ddefnyddio strategaethau Asesu ar Gyfer Dysgu ar lawr y dosbarth. |

| | |
|---|---|
| **Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/ *Expected Impact and Outcomes*** | • Adroddiadau craffu ar lyfrau / sgyrsiau gyda'r disgyblion yn dystiolaeth fod tasgau trawsgwricwlaidd cyfoethog yn cael eu paratoi ar gyfer y disgyblion yn y prynhawniau a bod cyfleoedd i'r disgyblion fod yn datblygu yn ddysgwyr mwy hyderus ac annibynnol.<br>• Dwy gymhorthydd dysgu, erbyn hyn, yn yr ysgol, yn gweithio o dan oruchwyliaeth y Seicolgydd Addysg ac yn gweithio ar dargedau penodol gyda grwp o ddisgyblion ar ddatblygu sgiliau megis hunan-barch, sgiliau gwrando gweithredol a sgiliau cyfathrebu, rheolaeth dicter a sgiliau cyfeillgarwch. Y sgiliau hyn a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn yn cael eu defnyddio i weithio gyda amrywiol ddisgyblion yn yr ysgol.<br>• Holl randdeiliaid yr ysgol yn ymwybodol o'r newidiadau sydd ar y gweill yn sgil Trawsnewid ADY. Modiwl ADY Cymru wedi ei gwblhau ac yn gyfredol ar G6. Map darpariaeth yr ysgol yn gyfredol ac yn cwmpasu oll o'r ymyraethau sydd yn weithredol yn yr ysgol.<br>• Athrawon yn fwy hyderus wrth ymwneud âg asesu ffurfiannol yn eu gwersi a hyn maes o law yn cysoni y safonau addysgu ar draws yr ysgol. |

**Gwerthuso/*Evaluation***

| | |
|---|---|
| **Beth sydd wedi gweithio'n dda/*What worked well*** | • Hyfforddiant Cydlynwyr ADY wedi sicrhau fod oll o staff yr ysgol yn ymwybodol o'r newidiadau sydd ar droed a'r weithgareddau dysgu proffesiynol gyda ysgolion y Dalgylch, e.e. creu map darpariaeth ar gyfer yr ysgol, hyfforddiant Ysgolion Cyfathrebu Cyfeillgar (cyd-fynd a blaenoriaeth 4 yn y CDY).<br>• Hyfforddiant ELSA wedi rhoi hyder i'r Cymhorthydd Dosbarth fod yn meddwl "y tu allan i'r bocs" am y strategaethau a ddefnyddir ganddi i ddelio gyda disgyblion sydd angen cefnogaeth Llythrennedd Emosiynol. Ond, mae angen hwyluso cyfnodau a'u hamserlennu erbyn Medi 2019 fel fod y gwaith yn fwy strwythuredig.<br>• Hyfforddiant Shirley Clarke wedi golygu fod gwell gwybodaeth gan yr athrawon o gyrhaeddiad a dealltwriaeth y disgyblion. |
| **Yr Effaith a'r Canlyniadau/ *Impact and Outcomes*** | • Hyder Cydlynwyr wrth ymdrin â'r modiwl trawsnewid ADY wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn wrth weithio gyd Cydlnwyr ar draws y Dalgylch.<br>• Egwyddorion addysgu effeithiol wedi gwreiddio yn gaddarn a defnydd da o strategaethau asesu ffurfiannol ar draws yr ysgol.<br>• Disgyblion yn fodlon rhoi cynnig ar dasgau'n fwy annibynnol gan gymryd fwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu. Disgyblion yn defnyddio'r gair "eto" wrth drafod eu dealltwriaeth ac yn gweld camgymeriadau fel cyfle i ddysgu ymhellach. |
| **Y Cam Nesaf/*Next stage*** | • Disgyblion CA 2 yn cael mwy o gyfleoedd i gyfrannu i'w dysgu e.e. dewis llwybrau ymholi a natur y tasgau (egwyddorion mantell yr arbenigwr a Cwricwlwm i Gymru yn cyd-blethu'n naturiol i'w gilydd yn y gwaith trawsgwricwlaidd thematig ac yn cael ei atgyfnerthu yn y gwersi Iaith / Mathemateg).<br>• Gwaith pellach i'w wneud er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio deilliannau dysgu i bwrpas ac yn seiliedig ar y sgiliau a ddatblygir a sicrheir fod y MPLl yn rhai o ansawdd a'r Deilliannau Dysgu yn cael eu cyflwyno yn ieithwedd y disgyblion.<br>• Ymateb i ofynion y 5 dimensiwn ymhellach o ran addysgu, addysgeg, arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, arloesi a chydweithredu. |